
ystadegau ar gyfer cymru
statistics for wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALlC) 2019
# Canllaw



## Cynnwys


1. Beth yw MALIC? .......... 2
2. Sut mae MALIC 2019 yn wahanol i MALIC 2014? .......... 2
3. Beth sydd yn wahanol yn y deunydd cyhoeddedig? .......... 2
4. Beth yw Mynegai? .......... 3
5. Beth mae MALIC yn ei fesur? .......... 3
6. Pa feysydd sy’n llunio MALIC? .......... 4
7. Pa grwpiau amddifadedd a ddefnyddir yn nadansoddiadau MALIC? .......... 5
8. Ar gyfer beth y gellir defnyddio MALIC? .......... 7
9. Beth yw cyfyngiadau MALIC? .......... 7
10. Amddifadedd ac ardaloedd gwledig .......... 9
11. Beth yw’r sgoriau amddifadedd? .......... 10
12. Cydgrynhoi’r canlyniadau ar gyfer ardaloedd daearyddol mwy .......... 10
13. Sut i addasu pwysoliadau'r meysydd neu ddileu maes .......... 11
14. Sut y gallaf ddod o hyd i ddata MALIC ar gyfer maes penodol? .......... 11
15. Sut i ddefnyddio MALIC i helpu i dargedu adnoddau neu weithgarwch .......... 12
16. Cymharu MALIC â gwledydd eraill y DU .......... 13
17. Rhagor o wybodaeth .......... 14

## 1. Beth yw MALIC?

Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) yw'r dull swyddogol gan Lywodraeth Cymru o fesur amddifadedd cymharol mewn ardaloedd bach yng Nghymru. Mae'n canfod yr ardaloedd sydd â'r crynoadau uchaf o fathau gwahanol o amddifadedd. Mae MALIC yn gosod yr holl ardaloedd bach yng Nghymru mewn safleoedd rhwng 1 (mwyaf difreintiedig) a 1,909 (lleiaf difreintiedig). Mae'n dod o dan faner Ystadegau Gwladol, ac yn cael ei baratoi gan ystadegwyr Llywodraeth Cymru.

Cafodd y cysyniad o'r Mynegai Amddifadedd Lluosog fel rydym yn gyfarwydd ag ef ei ddatblygu'n wreiddiol gan Ganolfan Ymchwil Prifysgol Rhydychen i Anfantais Gymdeithasol, a luniodd y MALIC cyntaf yn y flwyddyn 2000. Cafodd diweddariadau dilynol eu gwneud yn 2005, 2008, 2011 a 2014.

## 2. Sut mae MALIC 2019 yn wahanol i MALIC 2014?

O gymharu â MALIC 2014, mae MALIC 2019 yn defnyddio'r data diweddaraf ar gyfer pob un ond tri[1] o'r 47 o ddangosyddion. Mae'r fethodoleg a ddefnyddir yn MALIC 2019 yr un fath â MALIC 2014 ar y cyfan, gan nodi'r un wyth maes, neu fathau o amddifadedd, a defnyddio'r un ardaloedd. Fodd bynnag, mae rhai newidiadau wedi bod i'r Mynegai, gan gynnwys:

- newidiadau i ddangosyddion unigol, a dangosyddion newydd yn cael eu cynnwys o fewn meysydd Iechyd, Addysg, Mynediad at Wasanaethau, yr Amgylchedd Ffisegol a Thai
- newidiadau bach i'r pwysoliadau cymharol sy'n gymwys i'r meysydd (neu fathau) o amddifadedd

Mae mwy o wybodaeth am y newidiadau hyn ar gael yn Adroddiadau Canlyniadau a Thechnegol MALIC 2019.

## 3. Beth sydd yn wahanol yn y deunydd cyhoeddedig?

Nid oes newidiadau mawr yn amrediad a chynnwys allbwn MALIC ar gyfer 2019 o'i gymharu â 2014[2]. Dyma rai o'r newidiadau allweddol:

- Mwy o gyd-destun ar gyfer yr ychydig o ardaloedd gyda'r amddifadedd mwyaf yr adnabuwyd yn ein hadroddiad Canlyniadau
- Dadansoddiad o'r ardaloedd rheiny sydd wedi bod yn amddifad am nifer o iteriadau (amddifadedd dwfn ei gwreiddiau), yn ein hadroddiad Canlyniadau[3]
- Gwelliannau i nodweddion yr adnodd rhyngweithiol, gan gynnwys bar chwilio codau post ar bob tudalen, a mwy o fanylion yn weladwy ar fapiau (a fydd yn bosib eu lawrlwytho)
- Newidiadau i'r ddaearyddiaeth uwch rydym yn edrych arnynt, er enghraifft rydym wedi ychwanegu proffil amddifadedd ar gyfer Rhanbarthau Economaidd
- Data ar gyfer y dangosyddion newydd ar draws nifer o barthau
- Mae pob un o'n cynnyrch cyhoeddedig yn ddwyieithog

[1]Mae'r tri hynny yn seiliedig ar y data diweddaraf sydd ar gael o Gyfrifiad 2011.
[2] Mae hyn oherwydd ein bod wedi holi ein defnyddwyr am eu barn yn 2016, gan ddarganfod eu bod yn gyffredinol bodlon.
[3] Mae'r data sy'n sail i'r dadansoddiad hwn, yn ogystal â chanllawiau ar sut i'w defnyddio wedi cael eu cyhoeddi ar dudalennau gwe StatsCymru Llywodraeth Cymru.

- Cyhoeddwyd offeryn chwilio am God Post i safle MALIC ar StatsCymru, lle gall defnyddwyr fewnbynnu rhestr o godau post a dod o hyd i wybodaeth am amddifadedd ar gyfer yr ardaloedd hynny
- Darparwyd dadansoddiad o nodweddion gwarchodedig yn ôl amddifadedd ardal am y tro cyntaf

## 4. Beth yw Mynegai?

Grŵp o fesuriadau ar wahân wedi'u cyfuno i roi un rhif yw mynegai. Y nod yw dangos newidiadau mewn newidyn cymhleth fel cynnyrch diwydiannol, prisiau neu amddifadedd yn yr achos hwn. Yna, mae mynegai yn fodd i gymharu rhwng gwerthoedd gwahanol - sef, yn achos MALIC, y gymhariaeth rhwng ardaloedd bach.

## 5. Beth mae MALIC yn ei fesur?

Mae MALIC yn mesur amddifadedd lluosog ar sail ardal a hefyd yn mesur amddifadedd cymharol. Ceir esboniad llawnach o'r termau allweddol hyn isod.

Amddifadedd yw'r diffyg cyfleoedd ac adnoddau y gallem eu disgwyl yn ein cymdeithas. Mae'r meysydd a ddefnyddir yn MALIC yn ymwneud ag amddifadedd o safbwynt materol a chymdeithasol. Ystyr amddifadedd materol yw bod heb ddigon o adnoddau ffisegol - bwyd, dillad a chysgod - i gynnal safon byw benodol. Mae amddifadedd cymdeithasol yn cyfeirio at allu'r unigolyn i gymryd rhan ym mywyd cymdeithasol arferol y gymuned.

Mae amddifadedd lluosog yn cyfeirio at fwy nag un math o amddifadedd. Caiff MALIC ei gyfrifo gan ddefnyddio wyth maes (neu fath) gwahanol o amddifadedd, pob un wedi'i lunio o ystod o wahanol ddangosyddion. Mae ardal yn un ag amddifadedd lluosog os yw'n cynnwys nifer fawr o bobl sy'n profi'r math hwnnw o amddifadedd ar gyfer mwy nag un o'r meysydd. Yn gyffredinol, po fwyaf o feysydd sydd â chrynoadau uchel o amddifadedd yna'r mwyaf yw lefelau amddifadedd cyffredinol yr ardal. Nid yw hyn o reidrwydd yn golygu bod yr un bobl yn dioddef sawl math o amddifadedd yn yr ardal, er y byddem yn disgwyl cryn dipyn o orgyffwrdd.

Mesuriad ar sail ardal: Cyfrifir MALIC ar gyfer pob ardal fach (Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is - AGEHI) yng Nghymru. Ar ôl Cyfrifiad 2011, diffiniwyd 1,909 ACEHI yng Nghymru, ac mae ganddynt boblogaeth o 1,600 ar gyfartaledd. Mae MALIC yn seiliedig ar ddangosyddion sy'n ystyried nodweddion cyfanredol y bobl sy'n byw yn yr ardal yn ogystal â nodweddion yr ardal ei hun mewn rhai achosion (er enghraifft yn y maes amgylchedd ffisegol).

Mesuriad cymharol: Mae'r Mynegai yn darparu ffordd o nodi'r ardaloedd yn eu trefn, o'r lleiaf i'r mwyaf difreintiedig. Yn hytrach na mesur y lefelau amddifadedd mewn ardal, mae'n mesur a yw'r ardal yn fwy neu'n llai difreintiedig na holl ardaloedd eraill Cymru. Felly, gallwn nodi pa ardaloedd sy'n fwy (neu'n llai) difreintiedig na rhai eraill, ond nid faint yn fwy neu'n llai. Y rheswm dros ddefnyddio dull o'r fath yw bod hyn yn caniatáu inni gyfuno'r gwahanol feysydd.

## 6. Pa feysydd sy’n llunio MALIC?

Ar hyn o bryd mae MALIC yn cynnwys wyth gwahanol faes (neu fath) o amddifadedd, pob un wedi'i lunio o ystod o wahanol ddangosyddion. Defnyddir swm sydd wedi’i bwysoli o sgôr amddifadedd pob maes i lunio'r Mynegai. Mae’r pwysoliad yn adlewyrchu pwysigrwydd y maes fel elfen o amddifadedd, ac ansawdd y dangosyddion sydd ar gael ar gyfer y maes hwnnw.

Caiff pwysoliadau'r meysydd ar gyfer MALIC 2019 eu dangos isod, ochr yn ochr â'r pwysoliadau a ddefnyddiwyd yn 2014. Mae gwelliannau i ddata a ddefnyddir ar gyfer meysydd Tai ac Iechyd wedi arwain at benderfyniad i gynyddu rhywfaint ar eu pwysoliadau. Er mwyn caniatáu ar gyfer hyn, cafodd y pwysoliadau ar gyfer y meysydd Incwm a Chyflogaeth eu gostwng rywfaint. Fodd bynnag, mae'r ddau faes hynny yn cadw'r pwysoliadau cymharol uchaf, gan eu bod yn benderfynyddion cryf o ran amddifadedd.

Mae lledaenu rhywfaint o'r pwysau a oedd ar Incwm a Chyflogaeth yn flaenorol i feysydd eraill hefyd yn adlewyrchu'r ystod eang o nodau llesant a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

| | **Pwysoliad maes MALIC 2019** | **Pwysoliad maes MALIC 2014** |
|---|---|---|
| Incwm | 22% | 23.5% |
| Cyflogaeth | 22% | 23.5% |
| Iechyd | 15% | 14% |
| Addysg | 14% | 14% |
| Mynediad at Wasanaethau | 10% | 10% |
| Tai | 7% | 5% |
| Diogelwch Cymunedol | 5% | 5% |
| Yr Amgylchedd Ffisegol | 5% | 5% |

Yn ogystal â gosod ardaloedd bach yng Nghymru yn eu safleoedd o ran amddifadedd lluosog cymharol, mae MALIC hefyd yn gosod pob un o'r wyth gwahanol fath o amddifadedd yn eu safleoedd. Mae’n bosibl defnyddio safleoedd y meysydd hyn i ddeall yr hyn sy’n llywio amddifadedd mewn ardal benodol, a nodi patrymau amddifadedd rhwng ardaloedd. Er enghraifft, mae’r ardaloedd yn y tabl isod yn debyg o ran eu safleoedd MALIC 2014, ond mae’r patrwm amddifadedd ar draws eu meysydd yn bur wahanol.

**Tabl 1: MALIC 2019 - enghreifftiau o batrymau amddifadedd ar draws meysydd**

| AGEHI | Queensway 2 | Castell-Nedd Dwyrain 1 | Bigyn 4 |
|---|---|---|---|
| Awdurdod lleol | Wrecsam | Castell-nedd Port Talbot | Sir Gaerfyrddin |
| Safle Cyffredinol MALIC 2014 | 80 | 82 | 84 |
| Safle Incwm | 44 | 154 | 91 |
| Safle Cyflogaeth | 229 | 65 | 114 |
| Safle Iechyd | 182 | 132 | 164 |
| Safle Addysg | 32 | 100 | 28 |
| Safle Mynediad i Wasanaethau | 426 | 616 | 364 |
| Safle Tai | 789 | 568 | 1102 |
| Safle Diogelwch Cymunedol | 23 | 213 | 339 |
| Safle Amgylchedd Ffisegol | 1685 | 81 | 812 |

## 7. Pa grwpiau amddifadedd a ddefnyddir yn nadansoddiadau MALIC?

Gellid cyfeirio at yr ardaloedd (ACEHI) yn y safleoedd uchaf fel y rhai 'mwyaf difreintiedig' neu fel bod yn 'ddifreintiedig iawn' er budd dehongli. Fodd bynnag, nid oes trothwy benodol ar gyfer disgrifio ardal fel un ddifreintiedig. Yn aml, caiff safleoedd MALIC eu rhoi mewn grwpiau fesul degraddau, cwintelau a Grwpiau Amddifadedd at ddibenion dadansoddi a mapio. Rhoddir manylion yn y tabl isod.

**Tabl 2: Safleoedd yn ôl grwpiau**


| Safle | Grŵp degradd | Grŵp cwintel | Grŵp amddifadedd |
|---|---|---|---|
| 1 - 191 | 1 (10% mwyaf difreintiedig) | 1 (20% mwyaf difreintiedig) | 1 (10% mwyaf difreintiedig) |
| 192 - 382 | 2 (10-20% mwyaf difreintiedig) | 1 (20% mwyaf difreintiedig) | 2 (10-20% mwyaf difreintiedig) |
| 383 - 573 | 3 (20-30% mwyaf difreintiedig) | 2 (20-40% mwyaf difreintiedig) | 3 (20-30% mwyaf difreintiedig) |
| 574 - 764 | 4 (30-40% mwyaf difreintiedig) | 2 (20-40% mwyaf difreintiedig) | 4 (30-50% mwyaf difreintiedig) |
| 765 - 955 | 5 (40-50% mwyaf difreintiedig) | 3 (40-60% mwyaf difreintiedig) | 4 (30-50% mwyaf difreintiedig) |
| 956 - 1146 | 6 (50-60% mwyaf difreintiedig) | 3 (40-60% mwyaf difreintiedig) | 5 (50% lleiaf difreintiedig) |
| 1147 - 1337 | 7 (60-70% mwyaf difreintiedig) | 4 (60-80% mwyaf difreintiedig) | 5 (50% lleiaf difreintiedig) |
| 1338 - 1528 | 8 (70-80% mwyaf difreintiedig) | 4 (60-80% mwyaf difreintiedig) | 5 (50% lleiaf difreintiedig) |
| 1529 - 1719 | 9 (80-90% mwyaf difreintiedig) | 5 (20% lleiaf difreintiedig) | 5 (50% lleiaf difreintiedig) |
| 1720 - 1909 | 10 (10% lleiaf difreintiedig) | 5 (20% lleiaf difreintiedig) | 5 (50% lleiaf difreintiedig) |

Mae'r grwpiau degradd (a phumedau) yn rhannu'r ardaloedd yn 10 (a 5) grŵp weddol gyfartal. Gan fod 1,909 o ACEHI yng Nghymru, nid oes gan y grwpiau hyn yr un nifer yn union o ardaloedd oddi mewn iddynt.

Caiff y Grwpiau Amddifadedd eu defnyddio o fewn y prif ddadansoddiad MALIC, gan gynnwys mapiau. Maent wedi'u bwriadu i gael grwpiau llai yn y pen mwy difreintiedig o'r dosbarthiad, lle mae'r gwahaniaeth rhwng yr ardaloedd yn fwy na'r pen lleiaf difreintiedig. Er mwyn dangos y nodwedd hon o ddangosyddion amddifadedd, mae'r siart isod yn dangos sut mae canran y bobl sy'n ddifreintiedig o ran incwm yn cael ei dosbarthu fesul safle'r maes incwm. Dylid nodi bod:

- cyfraddau amddifadedd yn cynyddu'n serth ym mhen mwyaf difreintiedig y dosbarthiad (gallai newidiadau mawr yng ngwerth y dangosydd achosi newidiadau bach yn unig mewn safleoedd)
- yn y pen lleiaf difreintiedig, mae’r gromlin yn fwy gwastad, a gallai newidiadau bach yng ngwerth y dangosydd arwain at newidiadau mawr mewn safleoedd
- siâp ‘cromlin-s’ y dosbarthiad yn cael ei weld i ryw raddau ym mhob un o’r dangosyddion amddifadedd

**Siart 1: Dosbarthiad amddifadedd incwm MALIC 2019**




Mae dadansoddiad newydd o amddifadedd hirsefydlog (sy'n dadansoddi safleoedd MALIC ar draws pum mynegai ers 2005) yn rhannu ACEHIau i wahanol gategorïau. Gweler adroddiad canlyniadau MALIC 2019 i gael y dadansoddiad llawn.

Mae ein dadansoddiad o nodweddion poblogaeth yn ôl amddifadedd ardal (Cyfrifiad 2021) yn defnyddio data MALIC 2019 a Chyfrifiad 2021 i amcangyfrif cyfrannau’r grwpiau poblogaeth sy'n byw mewn ardaloedd o fewn pob grŵp amddifadedd MALIC 2019.

Gellir gweld enghraifft arall o ddefnyddio grwpiau amddifadedd yn y dadansoddiad o Amddifadedd ar lefel clwstwr practisau cyffredinol a gofal sylfaenol – diben yr erthygl hon yw darparu opsiynau ar gyfer dadansoddi amddifadedd cymharol y boblogaeth sydd wedi'i chofrestru ym mhob practis

cyffredinol a chlwstwr gofal sylfaenol yng Nghymru. Mae'r dadansoddiad yn cael ei ymestyn i ddangos sut mae gweithlu practisau cyffredinol (cyfwerth ag amser llawn) yn wahanol yn ôl amddifadedd cymharol y boblogaeth yng Nghymru, ac fe ddiweddarwyd tablau data StatsCymru ym mis Ebrill 2023.

## 8. Ar gyfer beth y gellir defnyddio MALIC?

Mae'n bwysig gwybod, wrth ddatblygu polisïau, rhaglenni a chyllid sy'n seiliedig ar ardaloedd, sut mae pobl ddifreintiedig wedi eu dosbarthu ledled Cymru. Gellir defnyddio MALIC i lywio'r penderfyniadau hyn a meithrin mwy o ddealltwriaeth o dueddiadau amddifadedd yng Nghymru. Mae'r Adroddiad Canlyniadau yn rhoi rhai enghreifftiau o sut y defnyddiwyd fersiynau blaenorol o MALIC. Gellir defnyddio MALIC er mwyn:

- Nodi'r ardaloedd bach mwyaf difreintiedig
- Cymharu amddifadedd cymharol ardaloedd bach
- Edrych ar yr 8 maes (math) o amddifadedd ar gyfer ardaloedd bach
- Cymharu cyfran yr ardaloedd bach o fewn ardal fwy sy'n ddifreintiedig iawn
- Defnyddio data dangosyddion (ond nid y safleoedd) i gymharu newid absoliwt dros amser

I sicrhau'r defnydd gorau o'r Mynegai, dylid ei ddefnyddio ar y cyd â mathau eraill o wybodaeth, naill ai o ddangosyddion y Mynegai, data arall a gyhoeddwyd, neu wybodaeth leol. Mae data safleoedd a dangosyddion, gyda dangosyddion yn cynnwys data ar gyfer ystod o ddaearyddiaeth a rhywfaint o fanylion fesul oedran, wedi ei gyhoeddi ar StatsCymru. Mae cyfeiriadau at wybodaeth gyd-destunol a allai fod yn ddefnyddiol wedi cael eu cynnwys yn yr Adroddiad Canlyniadau. Ceir nifer o ffynonellau o wybodaeth ar ardaloedd lleol a allai fod yn ddefnyddiol i ddefnyddwyr, gan ddibynnu ar eu hanghenion penodol. Ymhlith y rhain mae:

- Data ar rai trefi a chymunedau penodol yng Nghymru sydd ar gael drwy'r adnodd Deall Lleoedd Cymru
- Data ar awdurdodau lleol sydd ar gael drwy'r adnodd Llefydd Llewyrchus Cymru
- Ystadegau'r Farchnad Lafur ar gyfer ardaloedd lleol sydd ar gael drwy wefan Nomis y Swyddfa Ystadegau Gwladol

## 9. Beth yw cyfyngiadau MALIC?

Mae'n bwysig cofio nad MALIC yw'r unig ffordd o fesur amddifadedd. Cafodd ei ddatblygu at bwrpas penodol, sef mesur crynoadau o wahanol fathau o amddifadedd ar lefel ardal fach.

**Mesur Amddifadedd**

Nid yw safleoedd MALIC yn mesur faint o amddifadedd sydd mewn ardal, ac nid yw'n caniatáu ar gyfer datganiadau fel "mae ardal A ddwywaith mwy difreintiedig nag ardal B". Dim ond i ddweud "mae ardal A yn fwy difreintiedig nag ardal B" y gellir defnyddio'r safleoedd. Fodd bynnag, mae data sylfaenol dangosyddion MALIC yn cynrychioli lefelau amddifadedd absoliwt ar fesurau penodol, a cânt eu cyhoeddi ar StatsCymru.

**Cymharu amddifadedd absoliwt rhwng fersiynau o'r mynegai**

Gan fod MALIC yn fynegai cymharol, mae'n bosibl nad yw newid mewn safleoedd dros amser yn golygu newid yn lefelau amddifadedd absoliwt. Mae'n bosibl bod safle ardal yn newid o ganlyniad i gynnydd neu leihad yn lefelau amddifadedd ardaloedd eraill, yn hytrach na newid yn yr ardal ei hun. Hyd yn oed os yw safle'r ardal yn aros yr un fath, gallai lefelau amddifadedd yr ardal fod wedi cynyddu neu leihau, ond ddim digon i effeithio ar y gymhariaeth ag ardaloedd eraill. Fodd bynnag, gall dangosyddion sylfaenol MALIC gael eu defnyddio weithiau i fonitro newid dros amser, fel y mae'r erthygl ar ganllawiau dangosyddion yn egluro.

**Cymharu amddifadedd cymharol fersiynau o'r mynegai**

Gellir defnyddio MALIC  i edrych ar y newid yn safleoedd amddifadedd cymharol fersiynau, er enghraifft pa ardaloedd sydd wedi gadael, ymuno neu aros yn y grŵp mwyaf difreintiedig. Gallwch weld y math hwn o ddadansoddiad yn adran 2.6 o adroddiad canlyniadau MALIC 2019 (Amddifadedd Hirsefydlog). Fodd bynnag, dylid bod yn ofalus wrth ddehongli unrhyw newidiadau. Er mwyn cyfleu'r darlun gorau posibl o amddifadedd cymharol, ar gyfer MALIC 2019, rydym wedi newid rhai o'r dangosyddion, pwysoliadau'r meysydd, ac mae'r ONS wedi adolygu amcangyfrifon y boblogaeth  a oedd yn sail i rai o ddangosyddion MALIC 2014. Mae'n bosibl bod y newidiadau hyn wedi cyfrannu at ardal yn dod yn fwy (neu'n llai) difreintiedig o gymharu ag eraill, yn hytrach na newidiadau sylfaenol yn lefelau amddifadedd cymharol ardaloedd ers 2014. Gweler y Crynodeb o Newidiadau i'r Mynegai ar dudalen we Canllawiau i MALIC i gael manylion am y newidiadau lefel uchel a wnaed ym mhob fersiwn o'r mynegai ers MALIC 2005.

**Unigolion difreintiedig**

Gall pobl na fyddent yn cael eu hystyried yn ddifreintiedig fod yn byw mewn ardaloedd difreintiedig, a gallai pobl a fyddai'n cael eu hystyried yn ddifreintiedig fod yn byw yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig. Mae tua 1 o bob 5 o bobl sy'n ddifreintiedig o ran incwm yn byw yn y 10% o ardaloedd mwyaf difreintiedig. Er bod amddifadedd wedi'i grynhoi llawer mwy mewn rhai ardaloedd na'i gilydd, mae 4 o bob 5 o bobl sy'n ddifreintiedig o ran incwm yn byw y tu allan i'r ardaloedd hyn. Mae'n bwysig cofio hyn wrth dargedu adnoddau. Trwy dargedu'r ardaloedd 'mwyaf difreintiedig', bydd rhai pobl yn yr ardaloedd hynny'n cael eu cynnwys er nad ydynt o reidrwydd yn ddifreintiedig, a bydd llawer o bobl ddifreintiedig sy'n byw mewn ardaloedd llai difreintiedig ar eu colled.

### Unigolion â sawl amddifadedd

Nid yw MALIC yn nodi unigolion sydd â sawl amddifadedd. Yn hytrach, mae'n nodi'r ardaloedd lle mae sawl gwahanol fath o amddifadedd wedi'u crynhoi. Ar hyn o bryd, nid ydym yn gallu cysylltu'r data sydd yn y Mynegai ar lefel unigolyn er mwyn deall graddau amddifadedd lluosog unigolion, ond fe all hyn ddod yn bosibl yn y dyfodol.

### Amddifadedd ar draws y DU

Nid oes modd cymharu safleoedd â Mynegeion Amddifadedd Lluosog yng ngwledydd eraill y DU. Mae rhagor o wybodaeth am faterion cymharu mynegeion ledled y DU ar gael mewn erthygl gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Mae disgwyl i'r erthygl hon gael ei diweddaru i adlewyrchu mynegeion mwy diweddar, ond mae'r negeseuon allweddol ynghylch y gallu i gymharu yn parhau'n ddilys. Gweler adran 16 am ragor o fanylion am gymharu MALIC â gwledydd eraill y DU, sydd hefyd yn cyfeirio at ddata parth incwm a chyflogaeth cymaradwy ar gyfer Cymru a Lloegr.

### Golud

Mae'n bwysig cofio nad yw diffyg amddifadedd yn gyfystyr â bod yn oludog. Nid yw'n dilyn mai'r ardal leiaf difreintiedig yw'r ardal fwyaf goludog yng Nghymru o reidrwydd. Mae hefyd yn golygu bod MALIC yn gwahaniaethu'n fwyaf effeithiol rhwng yr ardaloedd mwyaf difreintiedig, a dylid bod yn eithriadol o ofalus wrth ddod i gasgliadau am y gwahaniaethau rhwng yr ardaloedd llai difreintiedig.

## 10. Amddifadedd ac ardaloedd gwledig

Pwrpas MALIC yw adnabod crynodiadau o amddifadedd ar draws pob rhan o Gymru, gan gynnwys ardaloedd gwledig. Mae tuedd i bobl amddifadus mewn ardaloedd gwledig yng Nghymru fod fwy ar wasgar yn ddaearyddol nag mewn ardaloedd trefol. Golyga hyn fod pocedi o amddifadedd mewn ardaloedd gwledig yng Nghymru yn dueddol o fod ar raddfa cryn is na graddfa ddaearyddol fach MALIC.

Gall pobl mewn cymunedau gwledig brofi nifer o'r un materion â phobl amddifadus mewn ardaloedd eraill. Fodd bynnag, mae rhai sylwebwyr[4] yn dadlau bo rhai materion penodol yn medru effeithio yn anghyfartal ar bobl mewn ardaloedd gwledig, er enghraifft diffyg cyfleoedd cyflogaeth a mynediad at wasanaethau. Mae modd dadlau hefyd y gall rhai materion amddifadedd effeithio yn anghyfartal ar bobl mewn ardaloedd trefol, megis tagfeydd.

Efallai y bydd gan y rheiny â diddordeb arbennig mewn amddifadedd gwledig neu drefol ddiddordeb yn yr allbynnau canlynol a gyhoeddwyd fel rhan o MALIC 2014, ac sy'n archwilio rhai o'r materion a godwyd:

---

[4] Er enghraifft, gweler Adroddiad 2016 ar Dlodi Gwledig yng Nghymru gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

- Erthygl ystadegol yn darparu canllawiau ar sut y gellir ac na ellir defnyddio MALIC a'i dangosyddion i ddadansoddi amddifadedd mewn ardaloedd gwledig
- Dadansoddiad o'r Parth Mynediad at Wasanaethau yn ôl math o anheddiad
- Data dangosyddion wedi'i gronni i ardaloedd anheddiad gwledig a threfol

## 11. Beth yw'r sgoriau amddifadedd?

Y Mynegai cyffredinol a safleoedd y meysydd yw prif gynnyrch MALIC. Cynhyrchir sgoriau (fesul maes ac yn gyffredinol) fel rhan o'r broses o gyfrifo safleoedd MALIC. Cam yn y broses o lunio'r Mynegai, yn hytrach na chynnyrch ynddynt eu hunain, yw'r sgorau MALIC. Nid yw'r sgoriau'n cynrychioli lefel o amddifadedd lluosog. Er enghraifft, os yw sgôr ardal A ddwywaith yn fwy na sgôr ardal B, nid yw'n golygu o anghenraid bod gan ardal A ddwywaith yn gymaint o amddifadedd ag ardal B. Mae hyn yn golygu nad yw'r sgoriau'n cynnwys mwy o wybodaeth na'r safleoedd am lefelau o amddifadedd lluosog. Er mwyn asesu lefelau o amddifadedd, dylid defnyddio data sylfaenol y dangosyddion.

Cyhoeddir sgoriau MALIC am ddau reswm yn unig:

- Tryloywder (fel bod defnyddwyr yn cael mynediad at bob cam o'r cynllunio)
- Fel y gall defnyddwyr arbrofi gyda gwahanol systemau pwysoli ar gyfer y Mynegai, os oes angen

## 12. Cydgrynhoi'r canlyniadau ar gyfer ardaloedd daearyddol mwy

Cyfrifir MALIC ar gyfer pob ardal fach (Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is - AGEHI) yng Nghymru. Mae dwy ffordd o gymharu ardaloedd daearyddol mwy o faint:

a) Cyfrifo cyfran yr ardaloedd bach mewn ardal ddaearyddol fwy sydd yn yr ardaloedd 10% neu 20% mwyaf difreintiedig (dyweder) yng Nghymru. Er enghraifft, os oes mwy na 10% o'r ardaloedd bach mewn ardal benodol yn ymddangos yn 10% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, gellir ei hystyried yn ardal o amddifadedd cymharol. Os yw hyn yn wir am lai na 10% o'r ACEHI, gellir ei hystyried yn ardal lai difreintiedig, yn gymharol. Bydd hyn yn cael ei wneud ar gyfer awdurdodau lleol yn ein hadroddiad Canlyniadau, ac ar gyfer sawl daearyddiaeth arall ar StatsCymru a'n gwefan ryngweithiol, ar 27 Tachwedd.

b) Defnyddio'r data dangosyddion sylfaenol, y gellir eu cyfuno (fel y'u cyhoeddir ar StatsCymru). Mae'r dangosyddion yn cael eu cyhoeddi ar lefel ardaloedd bach, ond hefyd ar gyfer amrywiaeth o ardaloedd daearyddol defnyddiol eraill, gan gynnwys awdurdodau lleol.

Nid yw'n ddilys cyfuno'r graddfeydd na sgoriau i ardaloedd daearyddol mwy o faint drwy gymryd cyfartaledd o'r gwerthoedd am ardaloedd bach. Y dull o lunio'r Mynegai sy'n gyfrifol am hyn:

- Byddai newid yn nosbarthiad y dangosyddion a achosid, yn ôl pob tebyg, gan newid mewn daearyddiaeth yn effeithio ar y camau rhagflaenol yn y broses o gyfrifo'r mynegai (megis dadansoddi ffactorau).
- Nid yw safleoedd yn cyfleu unrhyw syniad o faint y gwahaniaethau rhwng ardaloedd ac, felly, nid yw eu cyfartaleddu yn ystyrlon.
- Mae sgoriau meysydd wedi'u trawsffurfio'n esbonyddol, sy'n lleihau'r graddau y caiff amddifadedd mewn un maes ei wrthbwyso gan ddiffyg amddifadedd mewn maes arall. Byddai cyfartaleddu sgoriau ar gyfer grŵp o ardaloedd yn cael yr un effaith (anfwriadol) ar draws ardaloedd. Efallai na fydd hyn yn gwneud synnwyr, er enghraifft, lle y gallai fod gan ddau ranbarth â'r un gyfran o bobl dan anfantais sgoriau cyfartalog gwahanol iawn oherwydd dosbarthiad y bobl hynny ar draws yr ardaloedd bach yn y rhanbarth.

Ac nid yw'n ddilys cyfuno dangosyddion sylfaenol i ddaearyddiaethau mwy o faint drwy gymryd cyfartaledd gwerthoedd yr ardaloedd bach. Mynegir y rhan fwyaf o ddangosyddion fel cyfradd neu gyfran o'r boblogaeth ac nid yw cyfartaleddu dangosyddion yn ystyried gwahaniaethau ym maint y boblogaeth.

## 13. Sut i addasu pwysoliadau'r meysydd neu ddileu maes

Cyhoeddir sgoriau'r meysydd ar Daenlen Excel (OpenDocument) ar wefan MALIC. Gellir cyfuno'r sgoriau ar gyfer meysydd unigol mewn swm wedi'i bwysoli i ddarparu sgoriau Mynegai cyffredinol, a gaiff eu graddio wedyn i roi safleoedd y Mynegai. Nodir y pwysoliadau a ddefnyddiwyd ar gyfer MALIC 2019 mewn adran gynharach o'r canllawiau hyn. Ond gellir addasu'r rhain er mwyn rhoi mwy neu lai o bwysoliad i faes penodol, neu leihau ei bwysoliad yn gyfan gwbl i sero. Wedyn gellir cyfrifo swm wedi'i bwysoli newydd o sgoriau'r meysydd er mwyn darparu sgoriau a safleoedd wedi'u haddasu y Mynegai. Er enghraifft, os ydych yn ymchwilydd iechyd sydd â diddordeb yn effaith amddifadedd ehangach ar ganlyniadau iechyd penodol, efallai y byddwch am lunio set wedi'i haddasu o safleoedd gyda'r maes iechyd wedi'i ddileu.

## 14. Sut y gallaf ddod o hyd i ddata MALIC ar gyfer maes penodol?

Yn ogystal â safleoedd amddifadedd, darperir cyfoeth o wybodaeth ychwanegol am ardaloedd bach drwy ddata dangosyddion MALIC sylfaenol. Gall y manylion a geir yn y dangosyddion hyn lywio'r gwaith o broffilio ardaloedd a helpu grwpiau cymunedol i gyflwyno'r achos dros wella’r ddarpariaeth mewn ardaloedd anghenus. Mae'r Mynegai ei hun fwyaf defnyddiol pan gaiff ei ddefnyddio gyda gwybodaeth arall, naill ai o'r dangosyddion sylfaenol, ffynonellau cyhoeddedig eraill neu wybodaeth leol. Bydd yr Adroddiad ar Ganlyniadau MALIC yn cynnwys rhagor o wybodaeth am ffynonellau o'r fath.

Mae tair ffordd o ddod o hyd i ddata MALIC sy'n ymwneud ag ardal benodol.

Adnodd rhyngweithiol: Mae'r adnodd hwn yn nodi'r safleoedd, ond nid data dangosyddion, ac yn cynnwys mapiau rhyngweithiol. Teipiwch god post neu enw lle yn y bar chwilio, neu llywiwch trwy'r tab Daearyddiaethau i gyrraedd proffil amddifadedd ar gyfer ardal benodol. Byddwch yn gweld safle'r ardal ym mhob un o'r meysydd a'r Mynegai cyffredinol, a sut mae hyn yn cymharu ag ardaloedd cyfagos ac ardaloedd eraill yn yr awdurdod lleol hwnnw. Gallwch lawrlwytho mapiau o'r fan hon.

Data StatsCymru: Ceir safleoedd a data dangosyddion yma, ynghyd â mapiau statig. Gallwch lywio i adroddiadau (tablau) sy'n dangos safleoedd ardaloedd, neu adroddiadau eraill sy'n dangos data dangosyddion. Os ydych yn dechrau o enw lle neu god post, efallai y bydd cyfleusterau chwilio Daearyddiaeth (sydd hefyd ar StatsCymru) yn ddefnyddiol drwy nodi cod ac enw cywir yr ardal er mwyn i chi chwilio amdani yn y tablau. Neu gallwch ddefnyddio gwefan ryngweithiol MALIC a theipio cod post neu enw lle i ddod o hyd i'r cod ardal perthnasol. Gellir allforio adroddiadau StatsCymru fel ffeiliau Excel neu ffeiliau testun wedi'u hamffinio ag atalnod (csv), ac maent hefyd ar gael fel Data Agored.

Taenlen Excel (OpenDocument): Mae'r daenlen hon yn cynnwys y safleoedd ar gyfer y meysydd a'r Mynegai cyffredinol, ynghyd â gwybodaeth am ba ddegradd, cwintel a chwartel amddifadedd y mae ardal ynddynt. Felly, gallwch weld yn gyflym a yw ardal yn y ddegfed ran, y bumed ran neu'r chwarter mwyaf difreintiedig o ardaloedd, er enghraifft.

## 15. Sut i ddefnyddio MALIC i helpu i dargedu adnoddau neu weithgarwch

Defnyddir MALIC yn aml i dargedu gweithgarwch neu adnoddau at yr ardaloedd mwyaf difreintiedig. Mae hyn fwyaf effeithiol pan fo gan y broblem sylfaenol grynodiad daearyddol cryf, a lle mae'n well ymateb iddi ar lefel ardal fach neu gymuned. Er enghraifft, lle mae adnoddau wedi'u hanelu at adfywio tai neu ganol trefi, neu gynllun i fynd i'r afael â diweithdra crynodedig. O dan rai amgylchiadau, efallai y bydd dull gweithredu gwahanol yn fwy priodol, megis pan fo'r mater yn ymwneud yn benodol ag is-grwpiau o'r boblogaeth, megis yr henoed. Mewn sefyllfaoedd eraill, efallai mai cyfuniad o ddulliau gweithredu fydd fwyaf effeithiol, ac efallai y bydd y Mynegai yn ddefnyddiol fel man cychwyn ar gyfer targedu gweithgarwch.

Mae'n bwysig cofio nad MALIC yw'r unig ffordd o fesur amddifadedd. Mae'r Mynegai fwyaf defnyddiol pan gaiff ei ddefnyddio gyda gwybodaeth arall, naill ai o'r dangosyddion sylfaenol, ffynonellau cyhoeddedig eraill neu wybodaeth leol, i ategu eich dealltwriaeth o'r ardal.

Os ydych yn bwriadu defnyddio MALIC i lywio ymarfer targedu, dechreuwch drwy ystyried pa ddata sydd fwyaf perthnasol, am ei bod yn bosibl nad y Mynegai cyffredinol fydd y ffynhonnell ddata fwyaf perthnasol bob amser. Er enghraifft, efallai y bydd yn fwy priodol defnyddio safleoedd ar gyfer un o'r mathau penodol o amddifadedd, megis Diogelwch Cymunedol neu Iechyd. Defnyddir y maes Mynediad i Wasanaethau yn aml fel mesur ardal leol o deneurwydd. Rydym hefyd wedi cyhoeddi data ar feysydd sydd wedi'u hamddifadu'n fawr ar gyfer nifer o fersiynau o'r mynegai (categorïau o amddifadedd hirsefydlog), a allai ffurfio ardaloedd targed addas.

Cofiwch y gall data'r dangosyddion hefyd fod yn ddefnyddiol, ac fe'u cyhoeddir ar gyfer nifer o ddaearyddiaethau ac, mewn rhai achosion, grwpiau oedran. Er enghraifft, mae'n bosibl defnyddio data'r dangosyddion i nodi'r ardaloedd â'r cyfraddau uchaf o blant sy'n byw mewn teuluoedd sy'n wynebu amddifadedd o ran incwm. Mae ein dadansoddiad amddifadedd sy'n ymwneud â phlant ifanc a'r dadansoddiad pellach sy'n ymwneud ag ardaloedd mewn amddifadedd hirsefydlog yn cyflwyno dadansoddiadau y gellir ei wneud gan ddefnyddio data dangosyddion MALIC. Mae ein canllaw ar ddadansoddi data dangosyddion hefyd yn adnodd defnyddiol i gyfeirio ato wrth gynnal dadansoddiad o ddangosyddion.

Gellir cael gafael ar y data ar gyfer pob ardal fach yng Nghymru mewn dwy ffordd, sef:

Data StatsCymru: Mae safleoedd y meysydd a'r Mynegai cyffredinol a data dangosyddion ar gael yma. Fel sefyllfa ddiofyn, yn ogystal â'r safleoedd neu werthoedd y dangosyddion, dengys yr adroddiadau yr awdurdod lleol y mae'r ardaloedd bach (ACEHIau) yn perthyn iddo. Gallwch ddefnyddio cyfleusterau chwilio Daearyddiaeth (sydd hefyd ar StatsCymru) i gael gwybod ym mha ddaearyddiaethau uwch eraill y lleolir yr ACEHIau, er enghraifft, awdurdod lleol, bwrdd iechyd lleol neu etholaeth. Gellir allforio adroddiadau StatsCymru fel ffeiliau Excel neu ffeiliau testun wedi'u hamffinio ag atalnod (csv), ac maent hefyd ar gael fel Data Agored.

Taenlen Excel (OpenDocument): Mae'r daenlen hon yn cynnwys y safleoedd ar gyfer y meysydd a'r Mynegai cyffredinol, ynghyd â gwybodaeth am ba ddegradd, cwintel a chwartel amddifadedd y mae ardal ynddynt. Felly, gallwch weld yn gyflym pa ardaloedd sydd yn y ddegfed ran, y cwintel ran neu'r chwarter mwyaf difreintiedig o ardaloedd yng Nghymru.

## 16. Cymharu MALIC â gwledydd eraill y DU

Mae Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon i gyd yn llunio eu mynegai amddifadedd lluosog eu hunain. Mae'r setiau data yn seiliedig ar yr un cysyniad a methodoleg gyffredinol, fodd bynnag mae'r gwahaniaethau canlynol yn golygu nad oes modd cymharu'r mynegeion yn uniongyrchol:

- maent yn cael eu llunio ar gyfer ardaloedd daearyddol gwahanol (nid oes unrhyw ddaearyddiaeth ardal fach sy'n gyson ar draws y pedair gwlad)
- mae'r dangosyddion yn wahanol ac ni chesglir yr holl ddata mewn ffordd gyson ledled y DU (er enghraifft, mae'r systemau addysg yn wahanol i Gymru, felly nid oes modd cymharu rhai o'r dangosyddion addysg)
- mae'r Mynegeion wedi datblygu yn unol â'r hyn sy'n llywio polisïau ym mhob un o'r gwledydd; wrth i ddatganoli esblygu, mae'r gwahaniaethau hyn wedi tyfu
- caiff y Mynegeion eu llunio yn unol ag amserlenni gwahanol, felly nid yw'r data'n cyfeirio at union yr un flwyddyn ar draws y DU - eto, gofynion gwahanol y gwledydd gwahanol sy'n llywio hyn yn aml.

Mae rhagor o arweiniad ar gymharu MALIC ar draws y DU ar gael yn yr erthygl hon gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, a bydd yn cael ei ddiweddaru maes o law. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda'r llywodraethau a'r adrannau perthnasol i edrych ar gyfleoedd i sicrhau cyfochredd ble bynnag y bo'n bosibl, ac ym mis Rhagfyr 2020 cyhoeddwyd data maes incwm a chyflogaeth cymharol ar gyfer Cymru a Lloegr ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a'r Weinyddiaeth Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol. Gall yr ystadegau hyn fod o ddefnydd i'r rhai sydd â diddordeb penodol mewn mesurau amddifadedd ardal leol ar gyfer Cymru a Lloegr gyfan, ac fe'u cyhoeddir ar y gwefan gov.uk.

## 17. Rhagor o wybodaeth

Mae tudalennau MALIC y gwefan Ystadegau ac ymchwil yn cynnwys datganiadau blaenorol o ddata yn ogystal â'r newyddion diweddaraf a diweddariadau. Gallwch hefyd weld:

- Crynodebau o'r data MALIC 2019, gan gynnwys ein prif Adroddiad Canlyniadau MALIC 2019
- Adroddiadau Canllaw a Thechnegol  MALIC 2019, gan gynnwys rhestr o allbynnau cyhoeddedig

Mae data safle a dangosyddion MALIC ar gael i'w lawrlwytho o StatsCymru.

Mae'r wefan mapio rhyngweithiol yn darparu cyfleuster chwilio cod post a phroffiliau amddifadedd ar gyfer amrywiaeth o fathau o ardaloedd.

Gellir dod o hyd i wybodaeth Geo-ofodol berthnasol ar y Porth-Daear i Gymru ar Map Data Cymru.